## Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Hydref 2025

**Croeso a Gweddi** - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Gareth Hughes a gair o weddi gan y Idris Thomas

**Presennol** - Cadeirydd Gareth Hughes ynghyd a'r Cynghorwyr, Elwyn Jones, Phyllis Ellis, Elen George, Emma Chappell, Idris Thomas, a Lowri James

**Ymddiheuriadau** - Dawn Thomas, Rhian Evans-Hill, Gareth W Griffiths, Sasha Williams

Croesawyd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

### Datgan Buddiant

Ceisiadau Ariannol:

Elwyn Jones a Lowri James - Pwyllgor Neuadd Rhiwlas

Phyllis Ellis - Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun ac Eisteddfod Penisa'r-waun

Elen George - Eisteddfod Penisa'r-waun.

### Cofnodion 2ail Fedi 2025

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Idris Thomas (1)  Ellen George (2)

### Materion o'r Cofnodion

**Cyfarfod Partneriaeth Dyffryn Peris**

Cafwyd ymadrodd gan Berwyn Parry Jones fod y bartneriaeth wrthi yn trafod rheolau, ac wrthi yn symud cyfrif banc ayyb yn enw cywir y bartneriaeth yn hytrach na defnyddio Menter Fachwen. Cychwyn canolbwyntio ar adeiladau gwag ym mhob pentref. Nodwyd fod angen arian ychwanegol i wneud ymchwil mwy manwl o beth neu sut fath o dai sydd eu hangen yn y gwahanol ardal.

**Lloches gwaelod Bethel**

Mae'r Cyngor am gael amcan bris i ddefnyddio paneli mhetal gan efallai y buasent yn gryfach, ac ond defnyddio 2 banel plastig i weld trwodd.

**Croesfan i'r Ysgol ym Methel** Er i'r clerc yrru llythyr i adran priffyrdd y Cyngor eisoes, nid oes ymateb wedi dod. Penderfynwyd gyrru'r llythyr gwreiddiol mis diwethaf eto i'r adran briffyrdd, ynghyd ac adran Cynllunio, adran addysg ac Adref.

**Mynwent Macpela**

Derbyniwyd ymateb gan Y Cyngor yn nodi fod yna le yn y fynwent i gladdedigaethau am oddeutu 6 I 7 mlynedd arail, a bod y Cyngor yn ceisio adnabod tir addas yn y pentref. Un o'r syniadau yw ceisio gweithio gyda'r Eglwys yng Nghymru ar leoliad addas.

**Grant I Botiau Blodau**

Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant amodol o £7500 i osod potiau blodau o amgylch y pentrefi. Fodd bynnag, rydym nawr yn disgwyl cael caniatâd gan Gyngor Gwynedd ar le i osod y potiau, cyn i'r Cyngor rhyddhau'r arian.

## Gohebiaeth a Materion Eraill

Lloches Bws I Glwt y Bont

Bu i'r clerc dderbyn cais am gael lloches bws yn safle Clwt y Bont yng ngwaelod Pentre' Helen. Gyrrwyd at y Cyngor Sir, I weld os oedd yn bosib i arolygydd o'r Cyngor ddod allan i weld lle fuasai yn addas i osod Cysgodfa'n. Yn anffodus, nid yw'r palmant ddigon llydan yn yr ardal, ac felly nid oes safle pwrpaso i osod lloches bws yno.

## Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

***C25/0645/18/LL - Fachell Fach, Llanddeiniolen***

*Newid defnydd adeiladau allanol amaethyddol gwag presennol yn anecs at ddefnydd teuluol a 2 fwthyn gwyliau arhosiad byr, gosod tanc septig Newydd a maes draenio a ffurfio mynediad Newydd I gerbydau yn lle'r mynediad presennol. Dim gwrthwynebiad cyn belled a bod mynedfa Newydd I'r ffordd fawr yn ddiogel.*

***C25/0639/18/DT - 1 Bryn Bella Cottage, Fachwen***

*Estyniad ochr (diwygiad o gynllun a gymeradwywyd drwy ganiatâd cynllunio*

*C22/1032/18/DT - Dim Gwrthwynebiad*

***C25/0648/18/LL - Land at The Stables, North of Cae Rhos Terrace, Seion***

*Darparu un lle ar gyfer sipsiwn a theithwyr yn cynnwys un siale statig, un garafán deithiol, trosi bloc stabl un llawr carreg bresennol yn ystafell dydd/gyfleustodau, parcio ar y safle a chyfleusterau troi, gwelliannau mynediadau i gerddwyr a cherbydau, gosod Gwaith trin preifat a gwelliannau ecolegol (Ailgyflwyniad yn Dilyn gwrthod C25/0100/18/LL) - Gwrthwynebiad fel tro diwethaf, ac oherwydd nad nhw yw perchnogion y tir.*

## ***Llwybrau***

*Llwybr Rhif 50*

*Cais i wyro llwybr Troed 50 yng nghymuned Llanddeiniolen ger tir Fuches Isaf Fachwen, oherwydd diogelwch twll ger y Chwarel. Dim Gwrthwynebiad.*

## Cyfrifon

Cyflwynwyd Mantolen Ariannol cyfnod 6 mis, ynghyd a'r holl wybodaeth o dderbyniadau a gwariant y Cyngor at ddiwedd Medi. Nodwyd fod popeth i weld yn Dilyn y cynllun a bod dim yn codi. Diolchwyd I'r clerc.

## Ceisiadau Ariannol

Derbyniwyd 14 o geisiadau eleni a phenderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau sydd ac oedd yn cydymffurfio gyda gofynion.

Cynigiwyd £50 I Lais Ogwen a £300 i'r 12 mudiad arall

Phyllis Ellis (1) Lowri James (2)

Cytunwyd yn unfrydol.

**Byddwn yn rhannu fel a ganlyn**:

Eisteddfod Bethel, Clwb Bro Bethel, Clwb Snwcer Bethel, Clwb Bowlio Bethel,

Neuadd Rhiwlas, Clwb Crefft Rhiwlas, Cyfeillion Rhiwlas, Clwb Rhiwen,

Neuadd Gymunedol Penisarwaun, Eisteddfod Penisarwaun,

Pwyllgor Pentra Deiniolen a Chlwb Snwcer Deiniolen

## O Gwmpas y Bwrdd

### Deiniolen

Gordyfiant i fyny Ffordd Deiniol a heibio'r fynwent angen cysylltu gyda Thîm Tacluso

**Ffordd Caradog a Thai Marian, Batri**

Y ffordd wedi cael ei ail arwynebu, ond nid yw'r cwmni wedi cwblhau'r Gwaith, ac wedi ei adael heb roi'r wyneb gorffennol arno, ac mae'r ffordd mewn stad dipyn gwaeth nac oedd hi cyn cychwyn. Y clerc i ymateb I Gyngor Gwynedd.

**Penisarwaun**

Yn ystod y gwynt, roedd yna broblem gyda pholyn y golau stryd ger Rhosfair. Roedd y polyn yn ysgwyd o ochr i ochr fel ei fod ddim yn ddiogel. Gyrru I'r Cyngor fel gallent gael golwg o ran diogelwch.

**Lloches Bws Brynrefail**

Iddew yn tyfu a gordyfiant o'i gwmpas ynghyd ac angen ei ail beintio er mwyn cadw mewn cyflwr da. Y Clerc I drefnu i rywun wneud hyn**.**

**Rhiwlas**

Gwaith da wedi ei wneud ar ail wynebu dwy stad yn Rhiwlas.

**Diffibs**

**Mae rhai o rain yn yr ardal angen eu checio, a gweld os ydi'r batri a phadiau dal yn weithredol. Gan mai'r Cyngor sydd yn gyfrifol, a sawl mudiad gwahanol, awgrymwyd cysylltu â Bryn Roberts I wneud ymholiad yn unig os oes cyfundrefn yn bodoli neu os oes rhywun arall yn edrych ar ôl y rhai sydd yn yr ardal.**

**4 - Penisarwaun**

**4 Rhiwlas**

**1 Brynrefail**

**4 Deiniolen**

**2 Bethel**

**Eithaf peth gofyn a oes cyrsiau rheolaidd ar gael i'r cyhoedd hefyd.**

## Etifeddiaeth y Diweddar Ken Harris

Amser ail ymweld â'r ysgolion i weld sut mae'r cynnydd yn y gwaith yn mynd ymlaen, ac edrych ar ddatblygu'r ail ran o'r datblygiad prosiect.

Bydd cyfarfod gyda'r ysgolion ar y 15fed o Hydref I drefnu'r prosiect eleni.

## Cadarnhau Taliadau:

**Awdurdodwyd y taliadau ar y daflen fisol.**